# Dyluniadau strydoedd mwy diogel!

Cymhwysedd Digidol

## Canllaw i athrawon

Tudalennau: 89 i 92 | **Amser: 2 awr**

### Amcanion Dysgu

I ddisgyblion....

- Nodi a deall y sefyllfa bresennol y tu allan i'w dyluniad stryd ysgol.
- Nodi a deall sut mae dyluniad y strydoedd y tu allan i'r ysgol yn effeithio ar ddiogelwch cyrraedd yr ysgol
- Awgrymu newidiadau i gynllun y stryd i wella diogelwch llwybr

### Deilliannau dilyniant y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

**Rhyngweithio a chydweithio**

Defnyddio Google Docs/Google Slides i gydweithio a llunio ymchwil ar syniadau dylunio strydoedd

**Cynhyrchu**

Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol (ymchwil ar ddyluniadau stryd mwy diogel)

### Meysydd dysgu a phrofiad

Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

### Gwahaniaethu

- Gweithgaredd Ymestyn for MAT learners
- Llyfrgell Delweddau a Rhannu ar-lein

## Deunyddiau Ategol Sustrans

Dolen Map: [www.communitymap.uk/project/safestreetswelsh](http://www.communitymap.uk/project/safestreetswelsh)

## Ychwanegol

Helpu ysgolion i weithio tuag at Feini Prawf B2 a B4 y Wobr Ysgol Teithio Llesol.

# Taith Ddysgu

## Adnoddau

Gliniadur

# Ymgysylltu

Edrychwch allan o'r ffenestr/edrychwch ar stryd eich ysgol.

Mewn parau trafodwch beth rydych chi'n sylwi am...

1. Y traffig
2. Y ffordd
3. Y llwybr


# Syniadau am Weithgareddau

**Dyluniad Stryd Eich Ysgol!**

Defnyddiwch y ddolen hon www.communitymap.uk/project/safestreetswelsh I gael mynediad i'n map rhyngweithiol o Gymru a chwyddo mewn i ddod o hyd i stryd eich ysgol.

Allwch chi ein helpu i ddarganfod pa rannau o stryd eich ysgol allai fod yn ddrwg a gwneud cerdded, defnyddio sgwter, mynd ar olwynion neu feicio'n anodd? Gallwch ddewis dyluniadau stryd a all wneud eich strydoedd ysgol yn fwy diogel ac yn fwy o hwyl i'w defnyddio!

1. **Ewch ati i chwyddo'r map a dod o hyd i'ch ysgol. Ar ôl i chi ddod o hyd iddo, gallwch wedyn glicio ar y map i ateb cwestiynau am strydoedd eich ysgol.**
2. **Atebwch y cwestiynau ar y map rhyngweithiol i asesu stryd eich ysgol. Defnyddiwch y delweddau ar y dudalen ganlynol i'ch helpu.**
3. **Ailadroddwch Gam 1 a 2 mewn pum lleoliad gwahanol ar stryd eich ysgol neu ar hyd eich taith i'r ysgol.**



## Help Llaw

Defnyddiwch y delweddau hyn o ddyluniadau stryd da i'ch helpu i ateb y cwestiynau ar yr offeryn mapio ar-lein.



Plannu Coed a Blodau



Palmentydd Llydan



Gwell Lôn Feicio



Arwyneb Llyfn



Croesfannau Sebra neu Groesfannau Cerddwyr



Gwell Goleuo



Gwaith Celf Lliwgar



Bolardiau





Stribedi Twmpath Cyflymder



Dyluniadau Tawelu Traffig fel Rhwystr Gosod neu Rwystr Canol.

GELLIR CWBLHAU HWN FEL DOSBARTH, MEWN GRWPIAU NEU YN UNIGOL


Blwyddyn 4-6



## Syniadau am Weithgareddau

Dewiswch 5 dyluniad o'r oriel ddelweddau. Ysgrifennwch 2 fantais ac un anfantais ar gyfer pob un o'r 5. Gallwch ddefnyddio Google Docs neu Google Slides ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Er enghraifft: Celf Stryd ar gyfer Croesi'n Fwy Diogel i'r ysgol.



**Manteision:** Yn helpu i arafu ceir, yn edrych yn lliwgar

**Anfanteision:** Ddim yn stopio ceir sy'n goryrru'n llwyr

## Cam Cynnydd

Cydweithio drwy offer digidol

Mewn parau, rhannwch eich sleidiau Google Doc/Google Slides gyda'ch gilydd. Allwch chi ychwanegu un dyluniad stryd arall at waith eich partner nad ydyn nhw wedi ei ymchwilio? Dylai'r ddau ohonoch chi orffen gyda 4 enghraifft ddylunio.

## Myfyrio

Rydyn ni wedi bod yn dysgu popeth am ddyluniadau stryd mwy diogel i'r ysgol fel ei bod hi'n haws i chi a'ch rhieni gerdded, mynd ar sgwter neu fynd ar olwynion i'r ysgol. Allwch chi feddwl am 3 rheswm pam mae gallu teithio i'r ysgol yn llesol yn beth da?

1.
2.
3.

## Help Llaw

Gallwch rannu eich Google Doc neu sleid gydag eraill drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'rhannu'. Gallwch ychwanegu cyfeiriad e-bost cyd-ddisgyblion neu gopïo'r ddolen. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n newid y gosodiadau i ganiatáu i unrhyw un sydd â'r ddolen 'olygu' eich gwaith.



